




Tyfych eich dychymyg gyda Sialens Ddarllen yr Haf eleni - Gardd o Straeon!



Haf eleni, mae llyfrgelloedd yn Sir Fynwy yn gwahodd plant i gamu i fyd hudolus Gardd o Straeon, sef Sialens Ddarllen yr Haf 2025.

Gyda gwaith celf syfrdanol gan y darlunydd Dapo Adeola, bydd plant yn datgelu straeon sy'n dathlu'r awyr agored a phŵer dychymyg.

Ar gael am ddim mewn llyfrgelloedd ac ar-lein, mae Sialens Ddarllen yr Haf yn helpu plant i gadw ymgysylltiad â darllen yn ystod gwyliau'r haf. Gall cyfranogwyr ddarganfod llyfrau newydd, ennill gwobrau, a mwynhau digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u hysbrydoli gan natur.

Eleni, y cymhellion yw llyfrnod, bathodyn naid, tystysgrif, medal a (tra bo stoc ar gael!) bag llyfrau Gardd o Straeon hyfryd.

Rydym am ddiolch i Gyfeillion Llyfrgell Cil-y-coed am estyn allan at gangen Sir Fynwy o'r Undeb Addysg Cenedlaethol i gefnogi Sialens Ddarllen yr Haf eleni.

Diolch i'r dull hwn, bydd pob llyfrgell yn gwobrwyo tocyn llyfr gwerth £15 i ddau blentyn sy'n cwblhau Sialens Ddarllen yr Haf eleni - Gardd o Straeon - i

danio'u hantur ddarllen nesaf.

Diolch yn arbennig i'r Undeb Addysg Cenedlaethol am ein helpu i ysbrydoli cariad at lyfrau yn ein darllenwyr ifanc.

Cofrestrwch eich plant heddiw yn eich llyfrgell leol neu ymwelwch â gwefan [Sialens Ddarllen yr Haf](#).

Gwaith © celf logo Gardd o Straeon The Reading Agency 2025

Darluniau Gardd o Straeon gan Dapo Adeola
a'r © Asiantaeth Ddarllen

